# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 05.09.08

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams (Cadeirydd); Peter Read a W. Gareth Roberts
**Hefyd yn bresennol:** Gareth W Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Alwyn Thomas (Swyddog Gorfodi Trwyddedau), Euron Thomas (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd [Llygredd]) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**
**Ymgeisydd:** Mr Elwyn Evans (Perchennog Madryn Arms, Chwilog);

**Cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu); y Rhingyll Dewi Jones

**Ymgynghorai:** Mr T. E. Griffiths (Clerc, Cyngor Cymuned Llanystumdwy)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Margaret Griffith (Aelod Lleol); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu)

**Ymddiheuriad**
Cyn dechrau'r cyfarfod, ymddiheurodd y Cadeirydd am y camddealltwriaeth a ddigwyddodd pan drefnwyd y cyfarfod gwreiddiol i drafod y cais yn ystod mis Awst, pan fu rhaid gohirio'r gwrandawiad oherwydd prinder aelodau.

**1. CAIS AM WYRO TRWYDDED MADRYN ARMS, CHWILOG, PWLLHELI**

Adroddodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedau ar gais perchennog y Madryn Arms, Chwilog, am ymestyn y drwydded bresennol i gynnwys yr ardd gwrw, ystafell pŵl, y cwrt tu ôl i'r eiddo ac hefyd y maes parcio ar gyfer y canlynol: cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiadau dawns, unrhyw beth cyffelyb i'r uchod, creu cerddoriaeth, darparu cyfleuster ar gyfer dawnsio ac unrhyw beth cyffelyb i'r uchod o 11.00 hyd at 24.00 Dydd Sul – Dydd Sadwrn; gwerthu alcohol o 11.00 hyd at 24.00 Dydd Sul – Dydd Mercher; 11.00 hyd at 02.00 Dydd Iau – Dydd Sadwrn; yr eiddo ar agor i'r cyhoedd o 11.00 hyd at 00.30 Dydd Sul – Dydd Mercher; o 11.00 hyd at 02.30 Dydd Iau – Dydd Sadwrn.
Nodwyd i'r Heddlu ymateb trwy argymell amodau ar gyfer digwyddiadau yn yr eiddo; derbyniwyd llythyr ar ran y Gwasanaeth Tân yn cyflwyno sylwadau ac hefyd ar ran y Cyngor Cymuned yn codi pryderon.
Daeth llythyr i law oddi wrth Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn gwrthwynebu'r cais ac yn manylu ar y rhesymau dros hynny.
Adroddodd ymhellach iddo gyfarfod â'r perchennog i drafod y gwrthwynebiadau, ac iddynt ddod i gyfaddawd ynghylch yr oriau fel a ganlyn:
Gwerthu alcohol o 11.00 hyd at 24.00 pob dydd o'r wythnos;
Bod ar agor i'r cyhoedd o 11.00 hyd at 00.30 pob dydd o'r wythnos.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

(i) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
(ii)
(iii) Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

(iv) Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais.

(v) Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

(vi) Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Adroddodd Swyddog yr Heddlu i Ŵyl Chwilgig gael ei chynnal yn y dafarn yn ystod mis Awst, ac i'r Heddlu gael eu galw ar ddau achlysur yn ystod y penwythnos yn dilyn cwynion gan drigolion lleol am y sŵn ac am wydrau oedd wedi eu malu o gwmpas y stryd. Nodwyd i'r ymgeisydd gytuno, yn dilyn sgwrs gyda swyddogion yr heddlu ac os caniateir y drwydded, i gynnwys dau amod, sef cyflogi goruchwylwyr drysau ar achlysuron arbennig a rhoi 14 diwrnod o rybudd i'r Heddlu o unrhyw ddigwyddiadau fydd yn cynnwys adloniant allanol. Bellach mae swyddogion yr Heddlu yn argymell ychwanegu trydydd amod, sef bod poteli a gwydrau plastig yn cael eu defnyddio tu allan yr eiddo trwyddedig cyfredol.

Wrth gefnogi ei sylwadau, nododd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd:

- Bod pryder ynghylch y potensial i greu niwsans sŵn oherwydd agosrwydd y dafarn at y tai
- Os caniateir y cais, gallai'r ymgeisydd gynnal nosweithiau o adloniant uchel pob nos o'r wythnos pe dymunai
- Ystyrir hanner nos yn hwyr i adloniant awyr agored – mae canllawiau'r Adran yn gofyn am ddistawrwydd o 23.00awr ymlaen
- Wrth fonitro lefel sŵn dros gyfnod Chwilgig, recordiwyd lefel o 55 desibel nos Wener a nos Sadwrn, a 84db nos Sul, lle byddai disgwyl i'r lefel derbyniol fod rhwng 27 a 42 desibel.
- Byddai canllawiau Iechyd yr Amgylchedd yn gosod amodau na ellid eu cadw mor agos at dai, ac o'r herwydd mae'r swyddogion yn argymell gwrthod y cais

Adroddodd Clerc y Cyngor Cymuned lleol i'r Cyngor drafod y cais yn ystod cyfarfod, ac iddynt gytuno y byddai caniatau cerddoriaeth am awr yn ychwanegol ar dair noson o'r wythnos yn dderbyniol, ond nid yr oriau a nodir yn y cais.

Wrth ymateb i'r sylwadau, nododd yr ymgeisydd:

- Nid oes bwriad i gynyddu oriau yfed – camgymeriad oedd hyn yn y cais
- Prynwyd marquee ar gyfer achlysur dathlu canmlwyddiant yr ysgol gynradd leol ym mis Tachwedd eleni, a bwriad y cais yw cael defnydd priodol allan o'r adnodd yn ystod misoedd yr haf
- Fel arfer, modd i godi arian at achosion da yw'r digwyddiadau a leolir yn y Madryn Arms, ac yn achlysurol yn unig y'i cynhelir
- Yn ystod Chwilgig, roedd gweithwyr y dafarn allan ar y stryd yn rheolaidd yn clirio unrhyw wydrau a falwyd
- Yn dilyn yr achlysur, penderfynwyd defnyddio poteli a gwydrau plastig yn ystod digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol
- Cafwyd sawl neges o gefnogaeth gan drigolion lleol yn dilyn Gŵyl Chwilgig, a darllenwyd dwy neges er gwybodaeth i'r cyfarfod

Wrth drafod y cais, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r pedwar egwyddor o fewn y Ddeddf, sef:

  - Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
  - Diogelwch y Cyhoedd
  - Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
  - Amddiffyn Plant rhag Niwed

a chyflwynwyd y sylwadau canlynol:-

- Mae'r digwyddiadau hyd yma yn amlwg yn boblogaidd yn lleol ac yn cael cefnogaeth gan drigolion y gymuned
- Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan drigolion lleol, ond nodir pryderon swyddogion Iechyd yr Amgylchedd

- Buasai rhoi cyfyngiad ar gyfnod caniatau'r digwyddiadau yn cadw rheolaeth ar y nifer o achlysuron, tra'n rhoi rhyddid i'r Ymgeisydd wneud cais am ddigwyddiadau ychwanegol trwy Rybudd Digwyddiadau Dros Dro.
- Yn yr un modd byddai'r dderbyniol i gyfyngu diwrnodau o'r wythnos lle caniateir y cais

**PENDERFYNWYD caniatau Trwydded Eiddo ar gyfer yr Ardd Gwrw, yr Ystafell Pŵl, y maes parcio a'r cwrt i gefn y Madryn Arms, Chwilog, gyda'r amodau canlynol:**

**a) Cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiadau dawns, unrhyw beth cyffelyb i'r uchod, cyfleusterau ar gyfer cynhyrchu cerddoriaeth, dawns ac adloniant tebyg i'r uchod, a chyflenwi alcohol (sef adrannau E, F, G, H, I, J, K ac M ar y ffurflen gais) o 11.00 hyd at 23.00 ar Ddydd Gwener, Dydd Sadwrn a Dydd Sul a Gwyliau Banc rhwng 1 Mai a 30 Medi, gyda'r llecynnau a nodir ar agor i'r cyhoedd hyd at 23.30.**

**b) Goruchwylwyr drysau wedi eu cofrestru gyda'r ADD i'w cyflogi pan fydd mynediad trwy dâl i weithgareddau fydd yn cynnwys adloniant allanol**

**c) 14 diwrnod o rybudd i'r Heddlu o unrhyw weithgaredd fydd yn cynnwys adloniant allanol**

**d) Poteli a gwydrau plastig i'w defnyddio yn ystod gweithgareddau fydd yn cynnwys adloniant allanol**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol y byddai llythyr yn cael ei ddosbarthu yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, a'r hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30pm a daeth i ben am 4.00pm